# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Mawrth 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau Cyfalaf Trafodion Ariannol - 27 Chwefror 2023**

(Tudalennau 4 - 5)

## 3 Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(09.30-10.30) (Tudalennau 6 - 22)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dafydd Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwyddorau Bywyd ac Arloesi

Leanne Roberts, Pennaeth Polisi Diwygio Caffael - Iechyd a gofal cymdeithasol

**Dogfennau ategol**:

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (PDF, 101KB)

Memorandwm Esboniadol

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 23 Mawrth 2023**

(10.30)

**5 Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth**

(10.30-10.45)

**6 Adolygiad o Siarter Awdurdod Cyllid Cymru**

(10.45-11.00) (Tudalennau 23 - 25)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-06-23 P1 - Awdurdod Cyllid Cymru

**7 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Trafod yr adroddiad drafft**

(11.00-11.30)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-06-23 P2 - Adroddiad drafft **(Wedi'i gynnwys yn y pecyn atodol)**

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023

Amser: 09.30 - 11.12

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13441

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 19 Ionawr - 6 Chwefror 2023**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 19 Ionawr - 6 Chwefror 2023**

**2.3 PTN 3 – Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru– 3 Chwefror 2023**

**2.4 PTN 4 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 7 Chwefror 2023**

**2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 – 24 Ionawr 2023**

**2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adolygiad Annibynnol o Dreth Trafodiadau Tir - Adroddiad - 15 Chwefror 2023**

**2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau - 15 Chwefror 2023**

**2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC) – 21 Chwefror 2023**

**2.9 PTN 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar Alldro 2021-22 – 24 Chwefror 2023**

## 3 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Emma Watkins, Dirprwy

Gyfarwyddwr Cyllid a Busnes y Llywodraeth; a Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaethau Ariannol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y flaenraglen waith.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar am gyfraniadau'r Pwyllgor Cyllid yn y rôl hanfodol o graffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru. Wrth graffu ar Gyllideb ddrafft 2023-24, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid yr argymhelliad canlynol:

*'Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod ac yn egluro pam nad oedd modd cynnwys y dyraniadau hyn yn y Gyllideb Ddrafft am yr ail fwyddyn yn olynol.'*

Mae Llywodraeth Cymru yr derbyn yr argymhelliad hwn. Serch hynny, hoffwn i eto amlinellu'r cymhlethdod sy'n ein hwynebu wrth ddyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae wedi'i neilltuo o fewn y gyllideb gyfalaf na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer benthyciadau neu fuddsoddiadau. Felly, ni ellir ond ei ddyrannu pan fyddwn yn sicr y gellir disgwyl adenillion. Mae angen inni sicrhau y bydd modd adennill benthyciadau ac na fyddant yn cael effaith niweidiol ar ein sefyllfa gyllidebol ehangach. Yn sgil hyn, rhaid imi sicrhau bod systemau cadarn a phriodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus, lleihau risg a sicrhau effeithiolrwydd ein buddsoddiadau.

Fel yr wyf wedi'i amlinellu o'r blaen i'r Pwyllgor, mae'r cyfyngiadau ar y math hwn o gyfalaf – megis peidio â gallu benthyca i gyrff cyhoeddus – yn ei gwneud yn fwy heriol ei roi ar waith. Mae hefyd yn werth nodi bod y gyllideb cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i neilltuo yn llai na 0.4% o gyfanswm cyllid Cymru sydd ar gael yn 2023-24. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn rhoi blaenoriaeth i ddyrannu 98% o'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni ymrwymiadau'r Llywodraeth. Serch hynny, rwy'n cydnabod rhwystredigaeth y Pwyllgor a byddaf yn cymryd pob cam i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd yn achos Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Rwyf wedi cynnwys rhestr o'r dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol ar gyfer 2023-24 er mwyn i'r Pwyllgor Cyllid eu hystyried.

- I estyn y cynllun achub morgeisi presennol, rydym yn dyrannu £40 miliwn i gefnogi'r rhai mewn anhawster ariannol tymor byr a thymor hir, drwy fenthyciad tymor byr, cynnyrch gwrthol rhannu ecwiti, neu gyfuniad o'r ddau. Y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nod yw osgoi digartrefedd ac atal adfeddu.

- I greu cynllun newydd a fydd yn darparu benthyciadau tymor byr a thymor hir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i helpu i ariannu cynlluniau datblygu mewn perthynas â'r Grant Tai Cymdeithasol, rydym yn dyrannu £59 miliwn o gyfalaf. Bydd hyn yn helpu i leddfu effaith negyddol chwyddiant a benthyca, gan roi sicrwydd i'r sector. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio tai cymdeithasol ac yn darparu arbedion i denantiaid.

- Mae Cymorth i Brynu - Cymru wedi cefnogi miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o fod yn berchen ar dŷ, ers ei lansio ym mis Ionawr 2014, gyda mwy na 13,400 o gartrefi wedi cael eu darparu drwy'r cynllun, ochr yn ochr ag ysgogi newidiadau yn y diwydiant tai. Rydym yn dyrannu £63 miliwn i estyn y cynllun tan fis Mawrth 2025, gan ei addasu i ystyried newidiadau yn y farchnad dai ac effaith yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ar ddarpar berchnogion tai a'r diwydiant tai.

- I barhau i gefnogi gwelliannau i'n hystad addysgol, rydym yn darparu £2.4 miliwn ychwanegol yn ein rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Yn ychwanegol i'r dyraniadau uchod, hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at ddyraniadau dangosol o gyllid i'r Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Phrif Grŵp Gwariant yr Economi gwerth £10 miliwn yr un. Ceir nifer o gynigion sydd â photensial cryf y mae angen eu datblygu ymhellach, ac mae'r rhain yn mynd rhagddynt yn gyflym. Oherwydd sensitifrwydd masnachol yr opsiynau hyn, ni allaf ddarparu rhagor o wybodaeth ar hyn o bryd. Byddaf yn darparu manylion pellach am y dyraniadau hyn wrth iddynt ddatblygu.

Edrychaf ymlaen at gael sylwadau'r Pwyllgor am y dyraniadau hyn ac at weithio gyda chydweithwyr wrth i'r cynigion fynd rhagddynt.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon